5.15	Gorsaf trenau Llanfairpwll - penderfyniad wedi'i wenud i beidio defnyddio'r orsaf fel stop rhwng Bangor a Chaergybi am y rheswm fod y platform rhy fyr i alluogi defnyddio dau ddrws ar y trenau. Wedi cwynion, maent am ail edrych ar y mater.		
6.0	**Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Cyllid 23 Gorffennaf 2020**		
6.1	Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan G. C. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
7.0	**Materion yn codi o'r cofnodion.**		
7.1	Maes aml bwrpas angen ei drwsio yn dilyn fandaliaeth. Cysylltu a North Wales Fencing i weithredu ar frys.	Clerc	
8.0	**Cofnodion Cyfarfod Arbennig - Ail Agor Maes Chwarae Plant**		
	Derbyniwyd y cofnodion a'r penderfyniad i ail agor maes chwarae plant Y Gors		
9.0	**Cyfrifon a thaliadau Gorffennaf 2020**		
9.1	Nodwyd bod £1000 grant claddu wedi'i dderbyn gan y Cyngor Sir. Angefn ei drosglwyddo i gyfrif Y Fynwent.		
9.1	Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan I. Gruffydd, derbyniwyd y daenlen a chytunwyd i'r taliadau.		
10.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
10.1	Stad Ty'n Llain - dim sylw		
10.2	Stag Cottage - Dim gwrthwynebiad os nad yn amharu ar bobl drws nesaf.		
10.3	Glan Aber - dim sylw.		
11.0	**Archwiliad Enwau Strydoedd/Cerflyniau**		
11.1	Cerflyn Nelson ar lan Afon Menai ger y Fynwent yn syrthio i'r categori cyswllt gyda caethweisiaeth.	Clerc i anfon y wybodaeth at y Cyngor Sir.	
12.0	**Materion Brys**		
12.1	Paentio meinciau'r fynwent wedi'i gytuno eisoes. Nodwyd nad yw Dylan Williams bellach mewn sefyllfa i ymgymryd a'r gwaith. Derbyniwyd dyfynbris o £388 gan Martin Jones gan gynnwys llafur a paent. Cynigwyd gan A. Williams ac eiliwyd gan G. C. Jones a cytunwyd i dderbyn y pris a gofyn i Martin weithredu.	Clerc i drefnu.	
12.2	Angen arwydd ar bocs y defibrillator.	Clerc	
12.3	Ymgyrch gwirfoddoli'n dod i ben 15/08/2020. Cytunwyd i edrych ar sefydlu Cynllun Tro Da i'r dyfodol, trwy'r hwb Cymunedol.		
12.4	Trefniadau Nadolig - Grwp Tasg i gychwyn trefnu mis Medi. Goleuadau a Choeden ond efallai dim gwasanaeth eleni.		
12.5	Pafiliwn Peldroed y Gors - S. Edwards bellach yn Gadeirydd y Clwb Pel Droed Iau. Angefn trefnu gwaith cynnal a chadw.		
12.6	Cais CFAP - angen cytundeb rhwyng Y Cyngor Bro a'r Pwyllgor neuadd Goffa. Cynigwyd gan A. Mummery bod y gytundeb am 25 mlynedd, eiliwyd gan A. Jones. Cytunwyd i'r hyn.	Clerc	

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 29 Medi am 7.00yh trwy MS Teams

Arwyddwyd 29/09/20 (Cadeirydd) John Roberts

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 28 Gorffennaf 2020

Presennol: J. Roberts (Cadeirydd); A. Mummery, A. Jones, G. Parry, I Gruffydd, R. Meirion Jones, G. C. Jones, D. Jones,. R. Williams, Cynghorydd Sirol

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau.** S. Edwards, H. Ellis, H. Huws, D. Jones. Cynghorydd Sirol R. Wiliams		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb** - Dim		
3.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
3.1	G.C. Jones - Llywodraethwyr Ysgol Llanfairpwll - trafodaethau ail agor ysgolion.		
4.0	**Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Cyfarfod 30 Mehefin 2020**		
4.1	Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
5.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
5.1	Cais grant am £3500 tuag at golled refeniw y Neuadd Goffa wedi bod yn llwyddiannus.	Clerc i anfonebu'r Cyngor Sir	
5.2	Cais gan y Cyngor Sir i'r Cyngor Bro weithredu ar dorri gwair llwybr troed ychwanrgol. Angen cadarnhad os bydd y taliad yn gynwysiedig yn y taliad arferol ynteu angen anfonebu'n ychwanegol.	Clerc	
5.3	Camera Cylch Cynfyng - Y Clerc wedi anfon gorchymyn debyd uniongyrchol i Swyddfa'r Comisiwn Gwybodaeth.		
5.4	Cyfrif Banc - cysylltu â Nat West ar frys.	Clerc	
5.5	Yr Hen Doiledau - dim gwybodaeth pellach gan y cyfreithwyr.	Clerc i ddilyn fyny.	
5.6	Cyflenwad Nwy i'r Neuadd Goffa	Clerc i ddilyn fyny	
5.7	Polisi Cyngor Sir ar enwi tai newdd.	Clerc i holi swyddogion adran cynllunio	
5.8	Chwyn ym maes chwarae'r Gors - Y gofalwr wedi gweithredu.		
5.9	Asesiad Risg ar waith y gofalwr - G.C. Jones i greu asesiad wedi i'r Clerc greu rhestr o dasgau'r gofalwr.	Clerc G.C. Jones	
5.10	Arogl gwastraff dynol yn fynwent Santes Fair Dwr Cymru wedi cynnal archwiliad o'r safle, y dwr yn glir. Maent am gadw golwg ar y safle ac hefyd am edrych ar yr afon ger Pwllfanogl. Y Clerc gyda rhif ffon yr archwiliwr er mwyn cysylltu os bydd cwyn pellach.		
5.11	Gor dyfiant gwair yn fynwent Santes Fair - Trafodwyd y mater ac adroddwyd bod y gwair y cael 6 torriad y tymor.		
5.12	Awdit - Clerc yn danfon y ffeiliau i'r Archwiliydd Mewnol bore Mercher 29/07/2020	Clerc	
5.13	Parc Bryn Eira - Clerc i edrych am y gwaith papur yn ymwneud a'r brydles er mwyn darganfod statws/perchnogaeth y tir.	Clerc	
5.14	Rhandiroedd - Grwp Tasg wedi cyfarfod i drafod y posibilrwydd o sefydlu rhandiroedd yn y pentref ac ystyried lleoliadau priodol. Awgrymwyd mai'r tir mwyaf addas yw'r tir ger y fynwent. Angen prydles gan y Cyngor Sir. Angen edrych ar yr oblygiadau a'r canllawiau gan y Llywodraeth. Cysylltu a sefydliadau rhandiroedd eraill am gyngor.	Grwp Tasg	